Addasu i amodau tywydd eithafol

Ar y cyfan, mae'r DU yn profi gaeafau cynhesach a llaith, a hafau poethach a sychach. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o barhau, wrth i ragolygon Hinsawdd y DU (UKCP18) nodi cynhesu parhaus, a bydd cynnydd yn amlder ac arwyddocâd digwyddiadau eithafol fel tonnau gwres, glaw trwm, a sychder. Felly, mae'n hanfodol bod ffermwyr yn arfogi eu hunain â'r offer anghenrheidiol i fod yn rhagweithiol ac yn ymatebol wrth addasu eu busnesau ffermio i effeithiau newid hinsawdd.
Gall cyflyrau sychder a llifogydd deimlo fel cyferbyniadau llwyr ac eto gallent effeithio ar yr un fferm ar adegau gwahanol o'r flwyddyn, felly mae'n hollbwysig deall y risgiau penodol o ran patrymau tywydd newidiol ac eithafol ar gyfer eich fferm, a hefyd y gwahanol ddarnau o dir o fewn y fferm.
Mae camau ymarferol y gellir eu cymryd i baratoi ac i liniaru effeithiau tywydd eithafol ar fusnesau ffermio.

Llifogydd

Tymor byr i ganolig

- Mae cael mynediad at ddŵr glân a heb ei halogi hyd yn oed yn fwy hanfodol yn ystod llifogydd. Archwiliwch systemau dŵr yn rheolaidd am dorriadau neu halogaeth a achoswyd gan lifogydd. Gall tanciau dŵr dros dro gael eu defnyddio i sicrhau mynediad at ddŵr pan fo'r seilwaith yn cael ei effeithio.
- Yn aml, mae lifogydd yn gadael ôl gweddillion fel mwd, deunydd planhigion, a gwastraff, a all halogi caeau ac niweidio cnydau ac anifeiliaid. Mae glanhau'r gweddillion yn gyflym yn hanfodol i adfer gallu'r fferm. Dylid defnyddio peiriannau i dynnu'r gweddillion ac asesu lefelau halogaeth pridd er mwyn dychwelyd yn gyflym at gynhyrchiant optimaidd.
- Mae cydbwyso stociau porthiant yn erbyn anghenion gwirioneddol eich da byw yn hanfodol yn ystod digwyddiadau llifogydd. Defnyddiwch offer megis y Cyfrifiannell Bwyd a Phorthiant gan AHDB i asesu stociau a safon porthiant yn rheolaidd. Yn ystod llifogydd, gall porthiant gael ei halogi neu fod yn anhygyrch, gan wneud stocio ymlaen llaw a defnyddio ffynonellau porthiant amrywiol yn anghenrheidiol i ateb anghenion maethol.
- Mae llifogydd yn peryglu storfa porthiant yn uniongyrchol. Dylid storio silwair, gwair a grawn mewn mannau uchel neu seliedig i atal dŵr rhag dod i mewn. Mae buddsoddi mewn gorchuddion didos neu raciau uchel i storio porthiant yn helpu i ddiogelu'r cyflenwad. Mae archwiliadau ôl-lifogydd hefyd yn bwysig i sicrhau ansawdd a chyflwr y porthiant cyn ei ddefnyddio.

Tymor canolig i hir

- Dylid blaenoriaethu adeiladu iechyd pridd i wella gwytnwch. Mae pridd iach sy'n llawn mater organig yn gallu cadw lleithder yn well, ac yn gwrthsefyll erydiad, sy'n gwella'r gallu i

reoli dŵr. Mae arferion fel lleihau troi pridd, cnydau gorchudd ac amrywio cnydau yn helpu i wella hyn.

- Gall llifogydd amharu ar fynediad i'r caeau ac i seilwaith hanfodol, gan effeithio ar weithrediadau dyddiol ac ymateb brys. Mae'n hanfodol cynllunio llwybrau amgen neu lwybrau uchel sy'n parhau'n hygyrch pan mae lefelau dŵr yn uchel. Gall hyn olygu gosod traciau cadarn neu ffyrdd cerrig sy'n gynaliadwy ar gyfer symud cerbydau. Mae adolygu gwendidau seilwaith fel lleoliad siediau, silos a storfeydd yn helpu i leihau difrod llifogydd a chynnal parhad gweithredol.
- Mae mapio cyrsiau dŵr naturiol ar eich fferm yn hanfodol i reoli risgiau llifogydd. Gwybod ble mae dŵr yn tueddu i gronni, llifo neu sefyll, sy'n galluogi atebion ar gyfer draenio pwrpasol. Gellir creu neu wella ffosydd, pyllau neu gronfeydd i ddargyfeirio dŵr gormodol yn ddiogel tra'n cadw ei ddefnydd ar gyfer cyfnodau sychach. Mae monitro rheolaidd o gyrsiau dŵr yn sicrhau eu bod yn parhau'n rhydd ac yn gweithredu'n iawn.
- Mae defnyddio atebion naturiol fel cloddiau, coed a gwelliannau i iechyd pridd yn gallu bod yn rhwystr naturiol rhag llifogydd. Mae cloddiau yn arafu llif dŵr, yn lleihau erydiad pridd ac yn gwasanaethu fel cysgodfeydd gwynt. Mae coed yn gwella strwythur y pridd gyda gwreiddiau dyfnion sy'n amsugno dŵr gormodol. Mae arferion fel cynyddu mater organig pridd a lleihau cywasgiad yn gwella draeniad a gwytnwch rhag bod dan ddŵr.

Am fwy o wybodaeth ewch i dudalennau gwefan AHDB ar addasu i'r hinsawdd: Newid hinsawdd a'i effaith ar amaethyddiaeth y DU | AHDB]